

## **Cyngor Tref Amlwch Town Council**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fawrth Mawrth 24, 2026 am 7yh.  
Minutes of the Full Council meeting held at the Council Chamber, Tuesday March 24, 2026 at 7pm.

### **Presennol/Present:**

Gareth Winston Roberts OBE, Gerry Belanger, Myrddin Owens, Meg Roberts, Julie Edwards, Gareth Thomas, Llinos Knowles Williams, Derek Owen

### **Ymddiheuriadau/Apologies:**

Gordon Warren, Noel Kerr, Liz Wood, Alan Wood, Geraint Thomas, John Gill

### **Yn bresennol/In attendance:**

Carli Evans Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithu/translator)

#### **1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies**

Bu Gareth Winston Roberts OBE gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol.  
*Gareth Winston Roberts OBE chaired the meeting and welcomed all present.*

#### **2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**

Dim / None

#### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, cynnig Myrddin Owens, eilio Julie Edwards.  
*The minutes of the last meeting were approved, proposed Myrddin Owens, seconded Julie Edwards.*

#### **4 Materion yn Codi / Matters Arising**

##### **4.1 Trac Beicio Porth Amlwch Port Cycle Track**

Cadarnhawyd bod cyfarfod safle wedi ei gynnal gyda'r swyddogion perthnasol. Mae disgwyl gwybodaeth pellach am grantiau a mae gobeithio bydd mwy o wybodaeth erbyn y gyfarfod nesa.

*It was confirmed that a site meeting had been held with the relevant officers. Further information about grants is expected and hopefully there will be more information by the next meeting.*

##### **4.2 Llwybr Parys Farm Path**

Bu tynnu sylw at ymchwiliad cyhoeddus lleol gan PEDW yn ymwneud a'r llwybr cyhoeddus uchod sydd i'w gynnal Ebrill 21 yn Archifau Ynys Mon. Bydd Gordon Warren a Meg Roberts yn mynychu.

*Attention was drawn to a local public inquiry by PEDW relating to the above public footpath, which is to be held on April 21 at the Ynys Mon Archives. Gordon Warren and Meg Roberts will attend.*

#### **5 Cyfarfodydd Allanol / External Meetings**

5.1 Bu tynnu sylw at nodiadau cyfarfod a gynhaliwyd gyda Christian Branch a Tudur Jones, adran economaidd CSYM er gwybodaeth. Nodwyd eu bod yn chwilio am atebion rhai cwestiynnau a bydd y clerc yn adrodd yn ol maes o law.

*Attention was drawn to the notes from a meeting held with Christian Branch and Tudur Jones, IACC economic department for information. It was acknowledged that they were looking for answers to some questions and the clerk will report back in due course.*

5.2 Cafwyd grynodedb o gyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Amlwch gan Myrddin Owens. Cafwyd wybod bod Mrs Bethan Jones y Prifathrawes yn gadael ddiwedd yr haf, a bod y broses o benodi pennaeth newydd wedi cychwyn. Cytuno ysgrifennu ati i ddiolch am ei gwaith a dymuno'r gorau i'r dyfodol. Nodwyd siom nad oedd Liz Wood wedi mynychu'r cyfarfod, a'i bod wedi methu pob un ond un o gyfarfodydd y llywodraethwyr. Nodwyd pwysigrwydd addysg, a bod aelodau sirol yn mynychu cyfarfodydd ac yn cefnogi eu hysgolion.

*Myrddin Owens gave a summary of the meeting of the Governors of Amlwch Primary School. It was reported that Mrs Bethan Jones the Headteacher is leaving at the end of the summer, and that the process of appointing a new headteacher has started. Agreed to write to her to thank her for her work and wish her the best for the future. Disappointment was noted that Liz Wood had not attended the meeting, and that she had missed all but one of the governors' meetings. The importance of education and that elected members attend meetings and support their schools was noted.*

## **6 Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**

Cafwyd adroddiad gan Myrddin Owens yn dilyn cyfarfod y pwyllgor. Bu cymeradwyo nifer o daliadau fel yr arfer, mae manylion pellach ar gael gan y clerc. Bu cadarnhau balans pob cyfrif banc.

Bu ystyried dau gais am gefnogaeth ariannol sef Yr Arwydd a'r Carnifal. Cadarnhawyd bod £700 ar ol yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol yma, a bu'r pwyllgor argymhell bod cyfrannu £350 yr un i'r ddau gorff. Bu'r Cyngor Llawn gefnogi yn unfrydol, ni fu i Myrddin Owens gymryd rhan yn y drafodaeth.

Cafwyd ddiweddariad am y Llofft Hwyliau a bu diolch i Gareth Winston Roberts a Dafydd Griffiths Menter Mon am pwysu ar y cyfreithwyr perthnasol i symud. Bydd Myrddin Owens yn cysylltu eto a'r Gofrestrfa Tir am ddiweddariad. Cadarnhawyd bod y broses yn symud yn ei flaen ond yn araf deg.

Bu tynnu sylw at ddiweddariad i'r Cod Ymddygiad a bu'r pwyllgor argymhell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r diwygiad. Bu cymeradwyo'n unfrydol. Cadarnhawyd bod pob aelod wedi derbyn y wybodaeth drwy ebost.

Bu'r pwyllgor argymhell bod y Cyngor ym ymaelodi eto ag Un Llais Cymru gan nodi'r buddion. Bu'r Cyngor dderbyn yr argymhelliant, y clerc i wneud y trefniadau perthnasol. Bu diolch i Myrddin Owens am ei adroddiad.

*A report was given by Myrddin Owens following the committee meeting. A number of payments were approved as usual, further details are available from the clerk. The balance of each bank account was confirmed.*

*Two requests for financial support were considered, Yr Arwydd and the Carnival. It was confirmed that there was £700 left in the budget for this financial year, and the committee recommended that a contribution of £350 be made to each organisation. The Full Council supported unanimously, Myrddin Owens did not partake in the discussion.*

*There was an update on the Sail Loft and thanks were given to Gareth Winston Roberts and Dafydd Griffiths Menter Mon for pressuring the relevant lawyers to move. Myrddin Owens will contact the Land Registry again for an update. It was confirmed that the process is moving forward albeit slowly.*

*Attention was drawn to an update to the Code of Conduct and the committee recommended that the Council adopt the amendment. It was approved unanimously. It was confirmed that all members had received the information by email.*

*The committee recommended that the Council join One Voice Wales, noting the benefits. Full Council accepted the proposal, the clerk to make the relevant arrangements. Myrddin Owens was thanked for his report.*

## **7 Adroddiad Pwyllgor y Fynwent / Cemetery Committee Report**

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod diwethaf gan Meg Roberts. Bu diolch i'r contractwyr cynnal a chadw am eu gwaith da. Nodwyd bod gwaith wedi ei gwblhau hefyd i ail-lenwi hen feddi oedd wedi gostwng a thwtio'r hen ardaloedd. Cafwyd wybod bod y pwyllgor wedi archebu pedair mainc fydd i'w gosod mewn gwahanol ardaloedd yn y fynwent. Ni fydd posib gosod placiau coffa ar rhain, yn hytrach bydd posib gosod plac ar y wal goffa os am wneud hynnu.

Cafwyd wybod bydd gorffen y gwaith ffensio ar y ffin unwaith bydd y tir wedi sychu yn ddigonol. Bydd angen peth sylw i gyflwyno cais cynllunio a datblygu adran 12, bu'r pwyllgor argymhell peidio gwerthu

safleoedd bedd ymlaen llaw am y tro nes bydd y dablygiad wedi ei gymeradwyo. Bu'r cyngor llawn yn gefnogol a bu derbyn yr argymhelliant. Bu diolch i Meg Roberts am ei hadroddiad.

*Meg Roberts gave a summary of the last meeting. The maintenance contractors were thanked for their good work. It was noted that work had also been completed to refill old sunken graves and to spruce up the older areas. It was reported that the committee has ordered four benches which will be placed in different areas in the cemetery. It will not be possible to place memorial plaques on these, instead it will be possible to place a plaque on the memorial wall if families wished to do so.*

*It was reported that the fencing work on the boundary will be finished once the land has dried sufficiently. Some attention will be needed to submit a planning application for, and to develop section 12, the committee recommended to suspend the selling of burial plots in advance for the time being until the development has been approved. The full council was supportive and the recommendation approved. Meg Roberts was thanked for her report.*

## **8 Diweddariad Adeiladau Porth Amlwch Port Buildings Update**

Gweler adroddiad y pwyllgor cyllid uchod / *See finance report above.*

## **9 Cynllunio / Planning**

9.1 Cafwyd cadarnhad bydd cynrychiolwyr y sawl sy'n datblygu'r tir ar Ffordd Tan y Bryn yn mynychu cyfarfod mis Ebrill y Cyngor Llawn.

*It has been confirmed that representatives of those who are developing the land on Ffordd Tan y Bryn will attend the April meeting of the Full Council.*

9.2 Ni ddaw gwybodaeth pellach am rhentu tai cymdeithasol gan Liz Wood - y clerc i gysylltu am ddiweddariad.

*No further information about social housing rentals will be forthcoming from Liz Wood - the clerk to contact for an update.*

9.3 Bu ystyried un cais, cadarnhawyd bod y wybodaeth wedi ei ehostio at yr aelodau cyn y cyfarfod – LUE/2025/49 Anchorage, Porth Llechog – ni fu gwrthwynebiad wrth fod y datblygiad yno ers peth amser, ond bu tynnu sylw at broblemau parcio yn yr ardal.

*One application was considered, it was confirmed that the information had been emailed to the members before the meeting - LUE/2025/49 Anchorage, Porth Llechog - there has been no objection as the development has been there for some time, but attention was drawn to parking problems in the area.*

9.4 Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn / *IACC decisions were noted as follows:*

- MAO/2026/1 (FPL/2023/275) Stad Diwydiannol – wedi ei ganiatau / *approved*
- FPL/2025/312 Parc Mawr, Amlwch – wedi ei ganiatau/ *approved*
- DEM/2026/3 Maes Llwyn – dim angen caniatad / *consent not required*
- DEM/2026/2 Craig y Don – dim angen caniatad / *consent not required*
- FPL/2026/13 Mount View, Llaneilian Rd – wedi ei ganiatau / *approved*
- FPL/2026/4 Capel Zion, Burwen – wedi ei ganiatau / *approved*

Bu pwysleisio pwysigrwydd bod pob aelod yn ystyried y ceisiadau cynllunio sydd yn cael eu cyflwyno gan gynnwys yr effaith bosib ar drigolion cyfagos.

*The importance that all members consider the planning applications that are submitted including the possible impact on nearby residents was emphasised.*

9.5 Gofynnwyd i Derek Owen wirio gyda'r adran gynllunio am ddiweddariad ar gyfer y ddau ddatblygiad bwyd a drafodwyd mis diwethaf. Nid oes caniatad cynllunio hyd yma hyd y gwyddom, ond mae arwyddion wedi eu gosod yn barod ac mae'n debyg bydd y caffis yn agor cyn diwedd y mis. Mae 13 siop yn gwerthu bwyd eisioes mewn ardal bach.

*Derek Owen was asked to check with the planning department for an update for the two food outlets discussed last month. As far as we are aware, permission has not yet been granted, but signs have already been put up and the cafes will probably open before the end of the month. There are already 13 food outlets in a small area.*

**10 Cod Ymddygiad / Code of Conduct**

Gweler adroddiad y pwyllgor cyllid uchod / *See finance report above.*

**11 Toiledau Porth Amlwch Toilets**

Cadarnhawyd bod y toiledau ym Mhorth Amlwch yn agor y penwythnos nesaf am weddill y tymor. Bu cytuno mewn egwyddor byddai yn fuddiol i'r cyfleuster fod ar agor drwy'r flwyddyn ond bod angen ystyried y costau yn ofalus. Bydd trafod y mater pan fydd John Gill yn bresennol.

*It was confirmed that the toilets at Porth Amlwch open next weekend for the rest of the season. It was agreed in principle that it would be beneficial for the facility to be open throughout the year but that the costs needed to be considered carefully. The matter will be discussed when John Gill is present.*

**12 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors**

Bu diolch i Derek Owen am ei bresenoldeb / *Derek Owen was thanked for his attendance.*

**13 Gohebiaeth / Correspondence**

13.1 Bu tynnu sylw at ddigwyddiad Harddu Bro penwythnos cyntaf mis Mai, mae gofyn i'r gymuned addurno mewn lliwiau coch gwyn a gwyrdd i groesawy'r eisteddfod.

*Attention was drawn to the Harddu Bro event the first weekend of May, the community is asked to decorate in red white and green colours to welcome the Eisteddfod.*

13.2 Bu tynnu sylw at lythyr yn gofyn i'r Cyngor cefnogi cais bod yr Arolwg Ordans yn defnyddio enwau Cymreig ar eu mapiau mewn ymgais i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg yn yr amgylchedd naturiol. Bu cefnogi'r ymgyrch.

*Attention was drawn to a letter asking the Council to support a request that the Ordnance Survey use Welsh names on their maps in an attempt to protect Welsh place names in the natural environment. Members were in support of the campaign.*

**14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn i'w gynnal nos Fawrth, Ebrill 28, 2026 am 7yh.  
Bydd cyfarfod gyda Tom Humphreys Prif Weithredwr Safle Octel am 2yh Ebrill 1af 2026.

*The next Full Council meeting will be held Tuesday, April 28, 2026 at 7pm.  
A meeting with Octel Site Chief Executive Tom Humphreys will be held April 1<sup>st</sup> at 2pm.*

Bu'r cyfarfod orffen am 7.40yh / *The meeting closed at 7.40pm*

**Gareth Winston Roberts OBE**

**Cadeirydd/Chair**

**Cyngor Tref Amlwch Town Council**

CET03-26